CYNGOR CYMUNED BETWS

2005 09 Medi Cofnodion

CYNGOR CYMUNED Y BETWS

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Betws ar Ddydd Mercher y 14eg o Fedi 2005 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Loreen Lewis (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, Cynghorwyr Menna Roberts, Carwyn James, Peter Cowell, Anne Sizmur, Annette Price, Graham Vaughan, E Audrey Jones, June Gunter a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIAD: Cynghorwyr Delyth Richards a Keith Rees.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1. I DDARLLEN AG YSTYRIED Y COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 13eg O ORFFENNAF 2005.
Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Orffennaf 2005.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Safle Gwaith Glo'r Betws.
Dywedodd Y Clerc ei bod hi wedi gofyn am gopi o'r map GR3 o Fetws wrth Mr Craig Jones, Swyddog Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin, ond nid yw hi wedi derbyn copi hyd yn hyn.
NODWYD y pwynt uchod.

Hefyd dywedodd y Clerc ei bod hi wedi ysgrifennu at Adran Amgylchedd ac Iechyd Cyngor Sir Caerfyrddin yngly^n â'r sw^n a'r dwst sy'n dod wrth y gweithwyr sy'n gweithio ar Safle Gwaith Glo'r Betws. Mae'r Swyddog Amgylchedd ac Iechyd wedi danfon llyfryn niwsans i'w gwblhau. Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda'r Cadeirydd y Cynghorwr Loreen Lewis, ond gan nad yw'r gweithwyr wedi bod yn gweithio dros yr haf nid yw'r llyfryn wedi cael ei gwblhau.hyd yn hyn
NODWYD y pwynt uchod.

Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod yn mynd i ofyn am Adran 106 yn y cyfarfod Cynllunio ar y 15eg o Fedi. Esboniodd fod ganddo achos cyfiawn, oherwydd bydd yna gryn godiad yn y traffig bydd yn teithio ar Heol Maescware. Mae hefyd yn mynd i ofyn os gall y datblygwyr wneud rhywbeth am y palmentydd ar Heol Maescware. Dylai fod hyn yn yr amodau Cynllunio. Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell i hwn gael ei gynnwys yn y papur trafodaeth a hefyd y palmentydd ar hyd Heol Pentwyn. Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell bod yr WDA wedi dodi ymwadiad ar y papur trafodaeth sy'n adlewyrchu barn trigolion y Betws. Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans hefyd yn pryderu bod y mynediad sy'n arwain at Ddifft Newydd y Gwaith Glo yn annigonol ar gyfer mwy o lif traffig. Gofynodd ymhellach os oedd yr is adeiladwaith yn gallu derbyn fwy o ddatblygiadau.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.2 Cynllun - Ffordd Gerdded o Ffordd y Cyrnol, Betws i Ysgol y Betws.
Darllenodd y Clerc ateb derbyniwyd wrth Mr Trevor Sage, Pennaeth Trafnidiaeth yn dweud bod y cynllun yn nosbarth gwelliant Llwybrau Troed a bod rhaid gwneud yn sïwr ei fod yn cyrraedd y safon. Hefyd dywedodd fod cais Cyngor Cymuned Betws eisoes ar y rhestr wreiddiol, sydd ar hyn o bryd yn cael ei restru. Awgrymodd y Cynghorwr June Gunter fod y

Clerc yn ysgrifennu at Mr Trevor Sage i ofyn ble ar y rhestr mae Cyngor Cymuned Betws ar hyn o bryd, ac os oes blaenoriaeth mwy pwysig yn codi a yw cais Cyngor Cymuned Betws yn symud lawr y rhestr. Dywedodd y Cynghorwr Carwyn James nad oedd hyn yn dderbyniol oherwydd mae'r mater wedi bod yn mynd ymlaen am tua 20 i 30 mlynedd, ac mae eisiau gwneud hyn ar frys.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Trevor Sage.

2.3 Cyngor Sir Caerfyrddin - Goleuadau Nadolig.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn copi o'r cod ymarfer ar gyfer gosod, defnyddio a thynnu goleuadau Nadolig. Roedd y Clerc yn siomedig i nodi, pan cyrhaeddodd y llyfryn, roedd yna anfoneb am £45.00 Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi cysylltu gyda'r Cynghorwr Loreen Lewis, a phenderfynwyd dychwelyd y llyfryn a'r anfoneb.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.4 Cymuned Maes Glo.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr taw Mr Elwyn Williams yw Cynrychiolydd Cymuned Maes Glo Sir Caerfyrddin.
NODWYD y pwynt uchod.

2.5 Cais Cynllunio Twrban Gwynt.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Mr Chris Williams o ECO2 wedi cysylltu gyda hi, roedd yn gofyn am gopi o'r gohebiaeth roedd Cyngor Cymuned y Betws wedi anfon i Gyngor Sir Caerfyrddin yngly^n â'r cais cynllunio Twrban Gwynt. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi gwneud ymholiadau gyda'r Swyddog Cynllunio, Mr David Poulter, sydd yn gofalu am y cais, a dywedodd fod copïau o'r ohebiaeth yngly^n â'r cais hyn yn mynd i gael eu hanfon at ECO2 gydag amser. Ysgrifennodd y Clerc at Mr Chris Williams i ddweud fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn mynd i anfon gopïau o'r ohebiaeth at ECO2 gydag amser.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.6 Safle Garej tu cefn i Gaemawr, Betws.
Darllenodd y Clerc lythyr oddi wrth Mr Jonathan Fearn, Pennaeth Eiddo Corfforedigyn dweud bod y Cyngor yn y broses o adolygu y safleoedd garej mae nhw'n berchen, ac nid ydynt mewn sefyllfa i roi sylw ar ddyfodol y safle tan bod yr adolygiad wedi'i orffen ac yn derfynol. Mae nhw yn cydnabod diddordeb Cyngor Cymuned y Betws.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.7 Yswirio Cynghorwyr Cymuned.
Darllenodd y Clerc ateb derbyniodd wrth Mr John Lumley, Un Llais i Gymru, a dywedodd cyn ei fod yn mynd â'r mater hyn at Gyngor Sir Caerfyrddin, mae eisiau archwilio i weld os yw yswiriant Dyledion Cyngor Cymuned Betws yn ddigon. Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi cysylltu gyda Zurich, sef cwmni yswiriant Dyledion Cyngor Cymuned Betws a'i bod wedi dweud bod gan Gynghorwyr Cymuned y Betws yswiriant Dyledion a Damwain Bersonol wrth ymweld â safle.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.8 Llwybr Troed 3/12.
Roedd y Cynghorwr Peter Cowell wedi esbonio llythyr derbyniodd wrth Mr Gary Carlsen. Mae'r Cynghorwr Peter Cowell yn pryderu na ddylai'r llwybr troed gael ei symud. Darllenodd y Clerc ateb roedd y Cynghorwr Peter Cowell wedi ysgrifennu at Mr Carlsen. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell fod y Clerc yn gofyn i Mr Carlsen os yw'r llwybr sy'n mynd at y bont ar 3/12 yn gallu cael ei gwblhau cynted â phosib.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Carlsen.

2.9 Dwr Cymru.
Roedd y Clerc wedi dweud wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi ffonio Dwr Cymru, sydd wedi cadarnhau y canlynol:-

Os yw'r dw^r yn cael ei droi bant am fwy na 24 awr, mae Dw^r Cymru yn ysgrifennu at y trigolion. Os yw'r dw^r yn cael ei droi bant am 4 awr neu lai, mae nhw'n rhoi 5 munud o rybudd i'r trigolion. Dyma'i Polisi nhw.
NODWYD: y pwynt uchod.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cyngor Sir Caerfyrddin - Cynhaliaeth Llwybrau a Llwybrau Ceffylau 2004/2005.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn llythyr wrth Mr Kevin Thomas, Swyddog Hawliau Tramwy, sydd wedi gwarantu ad-daliad o £855 yngly^n â chyllid y llyneddf a £720 am haner cyntaf eleni.
NODWYD: y pwynt uchod.

3.2 Cyngor Sir Caerfyrddin Cynhaliaeth - Llwybrau a Llwybrau Ceffylau 2005/2006.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn cais cynhaliaeth am 2005/2006. Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell ei fod wedi cwblhau a ddychwelyd y ffurflen at y Swyddog Hawliau Tramwy.
NODWYD: y pwynt uchod.

3.3 Cyngor Sir Caerfyrddin - Adran Cynllunio.
Dywedodd y Clerc fod yr Adran Cynllunio wedi dweud bod y ty^ cyfagos i fila Pencoed, Heol Maescware, Betws i'w adnabod fel Ty^ Dalton, Heol Maescware, Betws.
NODWYD: y pwynt uchod.

3.4 Cyngor Sir Caerfyrddin - Personoliaeth Chwaraeon Sir Gâr 2005
Gofynnodd y Clerc os oedd y Cynghorwyr am enwi person neu dîm am Wobr Personoliaeth Chwaraeon 2005, Awgrymodd y Cynghorwyr enwi tîm Clwb Criced y Betws am dîm y flwyddyn.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn llenwi'r ffurflen enwi.

3.5 Gwaith Lleol.
Darllenodd y Clerc y gohebiaeth mae hi wedi derbyn wrth Waith Lleol, ymgyrch i gefnogi'r bil cymdeithasau cynnal. Roedd y Cynghorwyr yn ffafrio cefnogi hyn.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at y Gwaith Lleol i gefnogi'r Bil Cymdeithasau Cynnal.

3.6 Mae'r gohebiaeth canlynol wedi'i gydnabod ac mae'r cynnwys wedi'i nodi.
1. Cyngor Sir Caerfyrddin.
1.1 Gohebiaeth yngly^n â Safle Blaenorol Gwaith Glo'r Betws.
2. Un Llais i Gymru.
2.1 Llyfryn Newyddion - rhoddwyd copïau i'r Cynghorwyr Anne Sizmur a Menna Roberts.

2.2 Hysbys am Gynhadledd/Arddangosfa a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2005.
3. Llywodraeth Cynulliad Cymru.
3.1 Ymgynghoriad ar Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru.
3.2 Gwelliannau arfaethedig i reoliadau pwyllgorau safonau 2001.
3.3 Ymgynghoriad Ffurfiol - i bobl hen yng Nghymru - rhoddwyd copi i'r Gynghorwr June Gunter.
4. Cymdeithas Clerciau Cyngor Lleol.
4.1 Hysbys o Gyfarfod Blynyddol.
4.2 Cyflwyno'r Fersiwn Cymraeg Newydd o Weithio Gyda'ch Cyngor.
5. Grw^p Aman o Gynghorau Lleol Agenda a Chofnodion -
rhoddwyd copïau i Cynghorwyr Loreen Lewis a Anne Sizmur.
6. Aros Dros Nos Sir Gaerfyrddin.
7. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.
8. Newyddion Cymunedau a Gwirfoddolwyr.
9. Partneriaeth Sir Gaerfyrddin - Lleoliadau ar gyfer Cyfarfodydd Rhwydweithiau Cymunedol.

10. Partneriaeth Sir Gaerfyrddin - Manylion Cyswllt Cynghorwyr Cymunedol.
11. Panel Dyfarnu Cymru - Adroddiad Blynyddol 2004/05.
12. Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - Cynllun Rheoli Risg Integredig 2005/06.
13. Llyfryn Golwg ar Gymunedau Sir Gaerfyrddin - rhoddwyd copi i;r Cynghorwr Menna Roberts.
14. Cyfreithwyr Douglas Jones Mercer: yngly^n â Thrwydded Clwb Rygbi a Phêl Droed Betws.
15. Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Gwahoddiad i Seminar yng Nghaerfyrddin - rhoddwyd i'r Cynghorwr Loreen Lewis.
16. Biwro Cymunedol - Newyddion - rhoddwyd copi i'r Cynghorwr Annette Price.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Cytunwyd y ceisiadau isod gan Gyngor Cymuned y Betws:-
E/10763 - Agwedd 2, 8 Ty^ Datblygiad Preswyl
Parc Coetir, Betws
Adeiladwyr Brodyr Griffiths (13)

E/10838 - Adeiladu Ty^/Ty^ Gwydr a garej breifat
Tir rhwng 108 a 112 Heol Maescware, Betws
Mr B Williams a Miss E Miles (14)

E/10928 - Estyniad i ystafell wely llawr cyntaf
2B Heol Y Felin, Betws
Mr B Austin (15)

E/10994 - Estyniad Cefn 2 Lawr
105 Heol Y Cyrnol, Betws
Mr a Mrs Pitts (16)

E/11135 - Estyniad i Barlwr Angladd
39 Heol Betws, Betws
Hywel Griffiths a'i feibion (17)

4.2 Mae'r Cyngor Sir wedi rhoi caniatâd i'r canlynol:-
E/10243 - Estyniad
Pant Y Banwen, ger Heol Maescware, Betws
Mr R Lewis (10)

E/10195 - Estyniad i dafarn Pinwydden Albanaidd
Heol y Mynydd, Betws
Tafarn Pinwydden Albanaidd (9)

4.3 Mae'r Cyngor Sir wedi rhoi caniatâd materion neilltuedig i'r canlynol:-
E/10196 - Un bungalow preswyl
69 Heol Y Cyrnol, Betws
Datblygiadau Amanda Morris (8)

4.4 Mae'r Cyngor Sir wedi gwrthwynebu'r cais isod:-
E/09809 - Un ty^
2 Heol Waungron, Betws
Mr E A Schofield (3)

4.5 Mae'r cais isod wedi'i dynnu nôl:-
E/09981 - Adeiladaeth of ffordd bengaead
Parc Bwtrimawr, Betws

Brodyr Griffiths (5)

4.6 Nid yw'r cais isod yn ymofyn caniatâd cynllunio:-
E/10453 - Datblygiad Telegyfathrebu Hutchinson 3G
Tir ger Bwdist Uchaf, Trehopcin, Pontaman
Hutchinson 3G Uk (11)

5. CYFRIFON.
1. Yswiriant Zurich £347.62
2. Betws yn ei Blodau Mr P Danter £15.00
3. Betws yn ei Blodau Mr P Danter £10.00
4. Betws yn ei Blodau Mr A J Harpur £10.00
5. Betws yn ei Blodau Mr A Rees £10.00
6. Betws yn ei Blodau Mr A Rees £10.00
7. Cyflog a Lwfans y Clerc £794.54
8. Treth Incwm y Clerc £168.68
9. Cyfarfodydd Capel Newydd (x6) £60.00
10. Rhoddion at Fynwent Capel Newydd £150.00
11. Rhoddion at Fynwent Eglwys Dewi Sant £150.00
12. Cymdeithas Teithwyr Sir Gaerfyrddin £66.12
13. Mr R Lewis Cynhaliaeth Llwybrau Troed £800.00
14. Cynghorwr Anne Sizmur £75.00
(£50 Ysgol Betws a £25 i'r beirniad)
15. Cynghorwr Peter Cowell £165.03
(£104.94 Camera Digidol, £7.99 CD's, £52.10 papur a chetrisen inc)
CYFANSWM £2831.99
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

Esboniodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn adnewyddiad yswiriant Cyngor Cymuned y Betws ym Fis Gorffennaf, a oedd i'w ddisgwyl ar ddiwedd mis Awst. Cadarnhaodd ei bod hi wedi siarad gyda'r Cynghorwr Loreen Lewis, Cynghorwr Anne Sizmur a'r Cynghorwr Carwyn James, a chytunwyd adnewyddu'r yswiriant.
NODWYD y pwynt uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd ar y canlynol:-
Mis Gorffennaf
Roedd 10 trosedd wedi'u nodi yn ardal y Betws.
Bu 177 o bobl ifainc yn bresennol yn y Disgo Glas.

Mis Awst
Roedd 7 trosedd wedi'u nodi yn ardal y Betws.
Bu 90 o bobl ifainc yn bresennol yn y Disgo Glas.

Dywedodd PC Jones wrth y Cynghorwyr mae lladrad posib o gerbyd oedd y digwyddiad ar Heol Maescware, roedd y Cynghorwr Arnallt James wedi holi amdano, nid oes gweithredu wedi cymryd lle.

Dywedodd y Cynghorwr June Gunter wrth PC Jones tra bod hi'n aros ar y golau ar bwys Heol Pentwyn heddiw tua 10.30, roedd tacsi wedi mynd heibio tri chân yn gyflym. Dywedodd PC Jones ei fod yn mynd i siarad gyda chwmnïau tacsis yn Rhydaman.

Dywedodd y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod yn edrych mewn i gyflymder traffig cyffredin a'i fod yn ceisio cael y rhif o bobl ifainc sydd wedi cael eu lladd wrth yrru yn rhy gyflym. Hoffai gael ystadegau i geisio cael ymgyrch i ddysgu pobl ifainc yngly^n â chyflymder. Dywedodd

PC Jones ei fod yn mynd i siarad gyda'r Adran Gwrthdrawiad ym Mhencadlys Yr Heddlu.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR
Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans wedi adrodd ar y canlynol:-
1. Cist Cronfa Gymunedol - Rhoddodd gopïau o'r ffurflen gais Cist Cronfa Gymunedol a Chyfansoddiad i Glybiau Chwaraeon ym Metws.
2. Tir tu ôl i'r Oged a'r Aradr - Mae cyfarfod o'r safle wedi cymryd lle, ac mae e' wedi ysgrifennu i weld os all y tir gael ei ddefnyddio ar gyfer y Gymuned. Cafodd wybod fod hyn yn cael ei archwilio, ac fe fydd penderfyniad yn cael ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn.
3. Llwybr Troed sy'n arwain o Ffordd Y Cyrnol i Ysgol Gynradd Y Betws - Dywedodd wrth y Cynghorwyr fod y llwybr troed mewn cyflwr gwael iawn. Mae wedi siarad gyda Mr Bruce Wallace, sydd wedi dweud nad cyfrifoldeb y Cyngor yw hyn. Mae'r Adran Addysg wedi cadarnhau ei bod nhw'n mynd i edrych mewn i'r mater. Esboniodd taw'r ffordd ymlaen yw ceisio cael cronfeydd naill ai trwy'r Cist Cymunedol neu Ffordd Ddiogel i Ysgol. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol a'r Cyfarwyddwr Addysg i fynegi pryder y Cynghorwyr yngly^n â chyflwr y llwybr troed a hefyd i weld os oes cronfa ar gael i wella'r llwybr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol a'r Cyfarwyddwr Addysg.

4. Mynydd Betws - Mae'r arwyddion ceffyl wedi cael ei ddodi ar Fynydd Betws, ac mae Heol y Mynydd wedi cael ei dario. Nid yw'r arwydd Araf wedi cael ei bwysleisio ac mae e' wedi dweud wrth Adran y Briffordd.
5. Ysgol Gynradd y Betws - Mae e' wedi ysgrifennu at Adran y Briffordd i ofyn os gall arwyddion lleihau cyflymder cael eu dodi ar Heol y Betws ar bwys yr Ysgol. Mae nhw wedi cadarnhau nad ydynt yn paratoi i wneud hyn. Mae rhannau eraill o'r Sir ag arwyddion, a bydd yn codi'r mater hwn eto.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Parc Betws.
Esboniodd y Cynghorwr Annette Price i'r Cynghorwyr am y posibilrwydd o gael cronfeydd i Barc Betws a hefyd ei bod hi wedi cyfarfod gyda Swyddogion o Gyngor Sir Caerfyrddin. Efallai bydd cronfa ar gael i gael pwll pysgod aur, pwmp Edwardian a gardd Gyffyrddol. Esboniodd os bydd yn cael y gronfa bydd rhaid talu am gynhaliaeth y Parc. Awgrymodd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gerwyn Thomas, yn Adran y Parc yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig fod yr Awdurdod yn fodlon hawlio cyfrifoldeb am gynhaliaeth y Parc a hefyd unrhyw ddyledion syn codi o'r ardd newydd.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Gerwyn Thomas, Adran y Parc.

8.2 Safle Gwaith Glo'r Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price ei bod hi wedi cael cyfarfod gyda Mr Graham Noakes yngly^n ag Adran 106. Mae'r datblygydd wedi amlinellu 200 cartref ychwanegol ar safle Gwaith Glo'r Betws. Dywedodd y Cynghorwr Annette Price fod Mr Graham Noakes ar gael i ddod i siarad i'r Cynghorwyr os oes angen.
NODWYD: y pwynt uchod.

8.3 Betws yn ei Blodau.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Noson cyflwyniad yn llwyddiant. Rhoddodd y Cynghorwr Anne Sizmur ddiolch i'r Cynghorwyr am eu cefnogaeth, a hefyd rhoddodd ddiolch i'r Clerc am wneud y dystysgrif. Roedd y Cynghorwr Annette Price wedi rhoi diolch i'r Cynghorwr Anne Sizmur am y gwaith caled mae hi wedi dodi mewn i drefnu cystadleuaeth Betws yn ei Blodau.

Y canlynol oedd yr ennillwyr:-
Yr ardd orau yn y gystadleuaeth - Mr a Mrs P Danter
Gardd Fawr - Mr a Mrs P Danter
Gardd Ganolog - Mr A Harper
Gardd Fach - Mr Aeron Rees
Basged hongian/Arddangosfa Cynhwysydd - Mr Aeron Rees
Ysgol £50 Cystadleuaeth arbennig
Ms McLaren, Canmol
Mr A Ferebee, Canmol

Gofynnod y Cynghorwr Anne Sizmur os all y Clerc ysgrifennu i'r Elusen Betws Mewn Angen i roi diolch iddynt am roi'r darian fach a hefyd am argraffu y darian fawr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu llythyr o ddiolch i'r Elusen Betws Mewn Angen.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Meinciau.
Dywedodd y Cynghorwr June Gunter wrth y Cynghorwyr fod y meinciau mae Cyngor Cymuned y Betws wedi darpar sydd mewn gwahanol fannau yn y Betws yn cael eu defnyddio, yn enwedig y fainc ar bwys Annwyl Fan.
NODWYD: Y pwynt uchod.

9.2 Noson Drosedd.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi bod mewn cysylltiad gyda menyw o Sir Gaerfyrddin, sydd wedi awgrymu 3 dyddiad am y noson drosedd. Esboniodd y Cynghorwr Anne Sizmur y broses i'r Cynghorwyr. Cytunodd y Cynghorwyr i fynd ymlaen gyda hyn.
PENDERFYNWYD: bod Cynghorwr Anne Sizmur yn trefnu noson trosedd.

9.3 Ysgol Gynradd y Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr fod Pennaeth Ysgol Gynradd y Betws, Mrs James, yn barod i ddod i gyfarfodydd misol y Cyngor i roi gwybodaeth i'r Cynghorwyr yngly^n â digwyddiadau'r Ysgol.
NODWYD: y pwynt uchod.

Dywedodd y Cynghorwr June Gunter wrth y Cynghorwyr fod Ysgol Gynradd y Betws wedi cael llwyfan yn yr Eisteddfod ddiweddar. Awgrymodd y Cynghorwr June Gunter fod llythyr yn cael ei ddanfon i longyfarch yr Ysgol ar ei llwyddiant.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i longyfarch Ysgol Gynradd y Betws.

9.4 Brodawel, Ffordd Y Cyrnol, Betws Sw^n, Amhariad a Dwst.
Dywedodd y Cynghorwr Audrey Jones wrth y Cynghorwyr fod trigolion sy'n byw yn Brodawel, Heol Y Cyrnol, Betws yn talu fwy o Dreth Cyngor na'r rhai sy'n byw ar yr Heol Fawr. Roedd hi hefyd wedi dweud bod llawer iawn o loriau yn defnyddio'r lôn tu ôl i'r tai ym Mrodawel. Mae'r trigolion yn pryderu oherwydd mae llawer iawn o sw^n, amhariad a dwst yn dod o'r lôn, mae hyn yn digwydd yn ystod yr wythnos a'r penwythnos.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Amgylchedd a Iechyd.